

## Midostaurin ar gyfer lewcemia myeloid acíwt heb ei drin

13 Mehefin 2018

Mae midostaurin (Rydapt) ar gael ar y GIG fel triniaeth bosibl ar gyfer lewcemia myeloid FLT3-positif acíwt sydd newydd gael ei ddiagnosio (heb ei drin) mewn oedolion. Mae'n cael ei gymryd fel:

- therapi sefydlu (gyda daunorubicin a cytarabine safonol)
- therapi atgyfnerthu (gyda dos uchel o cytarabine) ac
- ar ei ben ei hun fel therapi cynnal os cafwyd ymateb lawn i'r driniaeth.

### A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?

Dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol roi gwybodaeth glir i chi, trafod eich opsiynau â chi a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os ydych yn dymuno. Darllenwch ragor am [wneud penderfyniadau am eich gofal](#).

### Cwestiynau i feddwl amdanynt

- Pa mor dda y mae'n gweithio o gymharu â thriniaethau eraill?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgîl-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Sut y bydd y driniaeth yn effeithio ar fy mywyd o ddydd i ddydd?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio?
- Beth fydd yn digwydd os nad wyf eisiau'r driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

### Gwybodaeth a chymorth

Gall [NHS Choices](#) fod yn fan da i gael gwybod mwy.

Gall y sefydliadau hyn roi cyngor a chymorth i chi:

- [Bloodwise](#), 0808 208 0888
- [Ymchwil Canser y DU](#), 0808 800 4040
- [Gofal Lewcemia](#), 08088 010 444
- [Cymorth Canser Macmillan](#), 0808 808 000

Gallwch hefyd gael cymorth gan eich grŵp [Gwarchod Iechyd](#) lleol.

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-4731-2967-2